## ATODLEN 4

Erthygl 6

## DARPARIAETHAU TROSIANNOL AC ARBEDION

**1.** Mae paragraffau 2 i 5 o'r Atodlen hon yn gymwys er i adran 60 (Diddymu Deddf 1996) gael ei dwyn i rym gan erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn.

**2.** Pan fo'r adroddiad diweddaraf ar arolygiad ysgol wedi'i wneud o dan Ddeddf 1996 a phan fo'r adroddiad hwnnw wedi nodi bod gofyn cymryd camau arbennig mewn perthynas â'r ysgol, mae'r adroddiad hwnnw i'w drin yn adroddiad ar arolygiad a nododd fod gofyn cymryd camau arbennig o dan Ran 1 o Ddeddf 2005 at ddibenion–

(a) adrannau 34(7)(b) a 35(2)(b) a (5)(b); a

(b) adrannau 14 i 19 o Ddeddf 1998 (ymyrryd mewn ysgolion sy'n peri pryder).

**3.** Pan fo'r adroddiad diweddaraf ar arolygiad o ysgol yn un a wnaed o dan y Ddeddf honno ac a nododd fod gan yr ysgol wendidau difrifol, mae'r adroddiad hwnnw i'w drin yn adroddiad ar arolygiad a nododd fod yr ysgol yn un yr oedd gofyn ei gwella'n sylweddol o dan Ran 1 o Ddeddf 2005 at ddibenion–

(a) adrannau 34(8)(b) a 35(3)(b) a (6)(b); a

(b) adrannau 14 i 19 o Ddeddf 1998.

**4.** Pan fo'r adroddiad diweddaraf ar arolygiad ysgol yn un a wnaed o dan Ddeddf 1996 ac a nododd fod gan yr ysgol ddosbarth chwech diffygiol, mae'r adroddiad hwnnw i'w drin yn adroddiad arolygiad a nododd fod gofyn gwella sylweddol ar ddosbarth chwech yr ysgol at ddibenion adran 113 o Ddeddf 2000 ac Atodlen 7 iddi (fel y'i diwygiwyd gan adran 46 o Ddeddf 2005 ac Atodlen 5 iddi).

**5.** Pan fo hysbysiad apêl yn cael ei gyflwyno i'r tribiwnlys cyn 1 Medi 2006, mae adran 27 ac Atodlen 3 i fod yn gymwys i'r apêl fel petai is-adran (2) o adran 27 yn cael ei hepgor.

**6.** Er i adran 27 ac Atodlen 3 iddi gael eu dwyn i rym, ac er i adran 9 o Ddeddf 1996 ac Atodlen 2 iddi gael eu diddymu, oll gan y Gorchymyn hwn ar 1 Medi 2006, mae unrhyw reoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan baragraff 2 o Atodlen 2 i Ddeddf 1996 sydd mewn grym ar 31 Awst 2006 ("*y Rheoliadau presennol*") i barhau i fod yn effeithiol o ran Cymru hyd at y dyddiad pryd y daw rheoliadau a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan baragraff 2 o Atodlen 3 ddod i rym, fel petai'r Rheoliadau presennol wedi cael eu gwneud gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan y paragraff hwnnw o'r Atodlen honno.